## 1 Ardal y Castell



**Castell Tuduraidd-Gothig rhestredig Gradd I o'r 19eg ganrif** a adeiladwyd ym 1830 gan Christopher Rice Mansel Talbot, gyda grisiau ysblennydd i'w harchwilio.

**Beili'r Castell** gyda chaffi, siop anrhegion, toiledau, cyfleusterau newid cewynnau a mannau cychwyn ar gyfer teithiau cerdded y parc. Mae Charlotte's Pantry, ein caffi ar y safle bellach yn rhan o'r cynllun Chatty Café cenedlaethol. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

**MCP Outdoors** - gallwch ddod o hyd i frandiau dillad awyr agored o safon yn y siop anrhegion.

Mae'r **Ardal Farbeciw** y tu cefn i'r castell ac ar gael i'w llogi at ddefnydd preifat.

**Mae gorsaf drên y castell** o flaen y castell.

## Margam Parc Adventure

Darparwr beicio mynydd, canŵio, caiacio a phadl byrddio ar eich traed, saethyddiaeth, cyfeiriannu, adeiladu rafft a llogi beiciau/go-gerti. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.margamparkadventure.co.uk

## 2 Yr Orendy a'r Gerddi



**Yr Orendy a'r Gerddi**

Mae'r **Orendy o'r 18fed ganrif** yn un o'r lleoliadau priodas mwyaf nodedig yn ne Cymru. Gyda'i bensaernïaeth unigryw, cafodd ei gwblhau ym 1790 a hwn yw'r orendy hwyaf ym Mhrydain. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.margamorangery.com

Mae'r **Adfeilion Mynachaidd** yn dyddio'n ôl i 1147, ac roeddent yn rhan o'r abaty Sistersaidd.

Mae **Gerddi'r Orendy** heb eu hail, gyda choed a llwyni aeddfed sy'n cynnig golygfeydd gwefreiddiol drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r **Tŷ Sitrws, sy'n adeilad rhestredig Gradd II** yn dŷ gwydr mawr o ddyddiad cynnar sydd wedi cadw cryn dipyn o'i gymeriad pensaernïol. Mae wedi'i adfer yn ddiweddar ac mae bellach yn cynnwys casgliad o blanhigion sitrws.

## 3 Gwlad y Tylwyth Teg



**Pentref hudol i blant**

Gyda thai bychain, castell antur ac ardaloedd chwarae. Mae bwyd a diod ar gael o'n huned arlwyo dymhorol (ar agor yn dymhorol).

## 4 Lle Chwarae Antur



**Dewch i archwilio'n lle chwarae sydd wedi'i adnewyddu'n**


Gallwch siglo, crwydro, llithro a dringo'ch ffordd drwy dros 40 o fannau chwarae cyffrous. Yn addas i blant 6-12 oed.

## 11 Yr Hyddgre Ceirw



**Heddiw mae'r hyddgre ceirw'n crwydro'n rhydd drwy 500 o erwau o barcdir.**

Roedd hyddgre yma yn oes y Normaniaid er y ceir cyfeiriadau at geirw yn yr ardal hon pan oedd y Rhufeiniaid yn ei meddiannu. Yn wreiddiol, hydd brith yn unig a berthynai i'r hyddgre ond erbyn hyn, mae'n cynnwys ceirw coch a cheirw Père David, rhywogaeth sydd dan fygythiad.




**Wi-Fi**
**The Cloud Wifi**
Available in the Castle Visitor Centre Courtyard, the Castle and The Orangery.

## Allwedd i'r symbolau

- Caban Mynyddfa'r Parc
- Gorsaf Drenau
- Pysgota Bras
- P Parcio
- Toiledau
- Bwyd a Diod *gwiriwch yr amserau agor pan fyddwch yn cyrraedd*

## 12 Peiriant Golchi Cŵn



Defnyddiwch ein peiriant Golchi Cŵn hunanwasanaeth - y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Cadwch eich car a'ch cartref yn lân am gost isel. Yn cynnwys dŵr cynnes, 2 sychwr cyflym a chynnyrch sy'n llesol i'r amgylchedd

## Ystâd Margam

O fewn ffiniau'r parc, ceir tirwedd sy'n unigryw ymysg cymoedd a bryniau de Cymru. Mae'r ucheldiroedd, y coedlannau, y llynnoedd a'r parcdiroedd yn darparu amrywiaeth eang iawn o gynefinoedd naturiol lle mae hanes naturiol toreithiog ac amrywiol wedi datblygu.

Mae'r parc yn cynnig teithiau cerdded gwych i bob gallu a golygfeydd godidog dros y dirwedd gyfagos.

## 10 Golygfan y Pulpud



mae'n cynnig golygfeydd hyfryd o Ddyfnaint, Gwlad yr Haf, Penrhyn Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

## 9 Roedd y twmpath coediog

Y tu ôl i'r castell yn gartref i'r Silures, llwyth ffyrnig o'r Oes Haearn. Dyma safle eu bryngaer gynt.

## 8 Ar ben y bryn ar ymyl orllewinol y parc



Gwelir Hen Eglwys (Capel Cryke), capel adfeiliedig heb do o'r cyfnod mynachaidd. Mae'r golygfeydd o'r fan hon yn drawiadol.

## 7 Llwybr y Fferm



Dewch i weld yr holl anifeiliaid - mae gwartheg Morgannwg, defaid Llanwenog a defaid wyneb broch, moch Cymreig ac ieir Buff Orpington ymhlith y bridiau diddorol a phrin y gallwch eu gweld.

Gwartheg Morgannwg yw ein harbenigedd. Efallai eich bod wedi gweld y gyr yn y caeau ger maes parcio'r prif fynedfa. Gellir eu hadnabod drwy eu côt lliw castan a'r streipen wen lydan ar hyd yr asgwrn cefn, i lawr y gynffon ac o dan y bola.

## 6 Go Ape



**Go Ape yw profiad coedwig mwyaf poblogaidd y DU.**

Gallwch hedfan i lawr gwifrau sip a neidio oddi ar siglenni Tarzan wrth fwynhau golygfeydd gwefreiddiol. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch **0845 0948753** neu ewch i **goape.co.uk/margam.**

## 5 Canolfan Ddarganfod Margam



**Mae Canolfan Ddarganfod Margam yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd addysg amgylcheddol o safon i ysgolion a grwpiau trefnedig, wedi'u darparu gan y Cyngor Astudiaethau Maes.**

Mae'r ganolfan yn adeilad ôl troed carbon isel. Mae ein tiwtoriaid yn cynnal digwyddiadau a diwrnodau agored i'r cyhoedd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch ni ar **01639 895636.** (Sylwer nad oes unrhyw fynediad cyhoeddus heblaw am doiledau pan fydd y ganolfan ar agor).